# Digwyddiadau 2025 – Rhaglen Gerddoriaeth

## Dydd Sadwrn 30 Awst a dydd Sul 31 Awst 2025

Mae'r rhaglen gerddoriaeth yn cael ei chynnal rhwng 12pm a 7pm ar ddydd Sadwrn, a rhwng 12pm and 5pm ar yr holl lwyfannau. O 10am i 12pm, bydd cerddoriaeth yn chwarae trwy'r system PA ar y llwyfannau llai, a bydd perfformiadau cymunedol ar y prif lwyfan i'r ymwelwyr eu mwynhau hyd nes y bydd y perfformiadau byw yn dechrau!

### Ardal A – Llwyfan y Foneddiges Werdd – Cardiff Road/Kings Arms

#### Dydd Sadwrn

| | |
|---|---|
| 12.00pm - 1.00pm | Secret Postal Society |
| 1.15pm - 2.30pm | Gypsy Flower |
| 2.45pm - 4.00pm | Act. Happy |
| 4.15pm - 5.30pm | Livestock Davies (Unawd) |
| 5.45pm - 7.00pm | Wrenna |

#### Dydd Sul

| | |
|---|---|
| 12.00pm - 12.45pm | Late to the Party (Deuawd) |
| 1.00pm - 2.00pm | Two Trick Pony |
| 2.15pm - 3.15pm | Two Hats (Deuawd) |
| 3.45pm - 5.00pm | Triawd Rebecca Richards |

### Ardal B – Llwyfan Ffos y Castell – Crescent Road

#### Dydd Sadwrn

| | |
|---|---|
| 12.00pm - 1.00pm | Juno Acoustic |
| 1.15pm - 2.30pm | Ragsy (Unawd) |
| 2.45pm - 4.00pm | The Orphic Blue |
| 4.15pm - 5.30pm | Cadence Acoustic Duo |
| 5.45pm - 7.00pm | Moonstorm (Deuawd) |

#### Dydd Sul

| | |
|---|---|
| 12.00pm - 12.45pm | Acoustic Notation |

| | |
|---|---|
| 1.00pm - 2.00pm | Louis & Ella Music Show |
| 2.15pm - 3.15pm | Post Modern Shoebox |
| 3.45pm - 5.00pm | Omega Two (trio) |

## *Ardal C – Prif Lwyfan y Tŵr Cam – Maes Parcio'r Twyn*

### *Dydd Sadwrn*

| | |
|---|---|
| 10.30am - 11.00am | Kinetic School of Performing Arts (perfformiad cymunedol) |
| 12.00pm - 1.00pm | The Blues Sisters |
| 1.25pm - 2.25pm | Juicy & The Jokers |
| 2.50pm - 4.00pm | No One Knows |
| 4.25pm. - 5.35pm | Albino Frogs |
| 6.00pm - 7.00pm | **PRIF ARTISTIAID: THE SWITCHTONES** |

### *Dydd Sul*

| | |
|---|---|
| 10.00am. - 10.30am | Sound of Hope (perfformiad cymunedol) |
| 12.00pm - 12.45pm | St Louis Express |
| 1.10pm - 2.00pm | Monkjack Funk |
| 2.25pm - 3.15pm | NOOKEE |
| 3.45pm. - 5.00pm | **PRIF ARTISTIAID: BIG MAC'S WHOLLY SOUL BAND** |

## *Gwybodaeth am yr Artistiaid*

### *Secret Postal Society*




Prosiect cerddorol gan y canwr-gyfansoddwr a'r aml-offerynnwr, Craig Mapstone yw Secret Postal Society. Ar ddiwedd 2020, heriodd Craig ei hun i ysgrifennu, recordio a rhyddhau cân wreiddiol newydd sbon bob wythnos trwy gydol 2021. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd Craig wedi rhyddhau 53 o draciau ac wedi creu fideos cerddoriaeth a gwaith celf i gyd-fynd â phob cân. Yn 2022, dechreuodd Craig chwarae fel Secret Postal Society yn fyw, gyda gigs yng Ngŵyl Jazz Aberhonddu ac EastFest ym Mhort Talbot, ac yn cefnogi Revolution Rabbit Deluxe ac un o berfformwyr mwyaf amlwg BBC Radio Wales, Kaysha Louvain. Pan na fydd Craig yn ysgrifennu a recordio fel Secret Postal Society, mae'n cyflwyno sioe radio Welsh Connections Playlist, sy'n cael ei ddarlledu ar orsafoedd yn y DU, yr Unol Daleithiau, Canada a Sbaen i gynulleidfa fyd-eang o fwy na 200,000 o wrandawyr yn wythnosol. Mae Craig hefyd yn gweithio fel cerddor sesiwn a thiwtor, ac fe yw cyfarwyddwr y cwmni cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo cerddoriaeth TIWN Media.

**Dilynwch ef ar Facebook: https://www.facebook.com/SecretPostalSocietyOfficial/**
**Dolen i'r gerddoriaeth: https://open.spotify.com/artist/6wJMvP0mHXmNpGiYaX7DWW?si=r3VYXTASTASPfc0pZYwavg**

### *Gypsy Flower*




Mae Jade a Tom wedi bod yn y busnes cerddoriaeth ers dros 30 o flynyddoedd! Ar ôl i Jade gymryd rhan mewn sioeau talent a chael ei sioe ei hun ar ITV sef 'Jade's Journey', penderfynodd yr hoffai fod yn cŵl – felly trodd at Tom. Cyfarfu'r ddau yn 2002, pan ymunodd Jade â grŵp gwreiddiol Tom sef Levin. Aethon nhw ati i ysgrifennu caneuon gyda'i gilydd, teithio o gwmpas y wlad a syrthio mewn cariad.
Ar ôl sefydlu'r grŵp Kozmic Drive a threulio deng mlynedd

yn chwarae caneuon pobl eraill mewn lleoliadau a gwersylloedd gwyliau ledled y DU, cymerodd y ddau saib i ddechrau teulu.

23 o flynyddoedd a 2 blentyn yn ddiweddarach, maen nhw'n ôl fel y deuawd Gypsy Flower. Ar hyn o bryd, maen nhw'n perfformio lle a phryd bynnag y gallan nhw, yn ysgrifennu gyda'i gilydd, yn diddanu pobl ac yn cofio pam fod cerddoriaeth wedi bod yn rhan mor fawr o'u hanes ers y cychwyn.

**Dolen i dudalen Facebook: https://www.facebook.com/gypsyflowerduo**

## *Act Happy*



Mae Act Happy yn ddeuawd arobryn o Gasnewydd sy'n canu cerddoriaeth werin acwstig. Mae ganddyn nhw arddull werin dywyll nodedig, gyda dylanwadau pop a roc. Mae'r llais benywaidd tyner a'r llais gwrywaidd dwfn yn cyferbynnu â'i gilydd, ac eto'n eu hategu. Mae eu caneuon gwreiddiol yn amrywio o gerddoriaeth werin Geltaidd dyner, i gân morwr sy'n codi'r galon, i faled ddialgar am lofruddiaeth. Mae Act Happy yn chwarae'n rheolaidd yn lleol ac yn ymestyn allan ar draws y DU. Dechreuodd y deuawd chwarae yn sin gwyliau'r DU yn ystod haf 2024. Os hoffech chi glywed y newyddion diweddaraf am eu gigs ac ati, cofiwch danysgrifio i'w rhestr bostio. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â llogi'r band, defnyddiwch y ffurflen gyswllt ar eu gwefan: <https://acthappymusic.com/bio>

**Dolen i dudalen Facebook: https://www.facebook.com/act.happy.2023**
**Dolen i'r gerddoriaeth: https://open.spotify.com/artist/3LIYGMCSM6NCnKxMn7I4RV?si=hIrdTbN-QqSmIgOC_idrdg**


## *Livestock Davies (unawd)*




Mae Livestock Davies nôl yn yr Ŵyl eleni, ar ei ben ei hun! Fel arfer, mae'n perfformio fel canwr, gitarydd a chyfansoddwr caneuon Livestock Davies & the Lowdown Snakes – sef band Rockabilly o Gymru a gafodd ei sefydlu ar ddechrau haf 2009. Ond eleni, bydd Rob yn eich diddanu gyda chaneuon y gallwch chi ymuno â nhw a rhai mwy hamddenol, ond gyda'r un lefel o egni jeif ag erioed!

**Dolen i dudalen Facebook: https://www.facebook.com/LivestockDavies**
**Dolen i'r gerddoriaeth: Youtube: Livestock Davies & The Lockdown Shakes (Congress Theatre & Virtual Studio)**

## *Wrenna*



Mae Wrenna yn gantores pop a chyfansoddwr caneuon o Gaerffili. Daw ei hysbrydoliaeth gan berfformwyr fel Birdy a Florence + the Machine. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio ar gerddoriaeth newydd i'w rhyddhau eleni, gan ysgrifennu am bynciau nad yw pobl yn hoffi eu trafod mewn cymdeithas. Cadwch lygad allan am ei set ar 30 Awst!

**Dolen i dudalen Facebook: https://www.facebook.com/ffionwrenn**
**Dolen i'r gerddoriaeth: https://open.spotify.com/artist/0vCSJUx2XNcoXMSVN1oaHY?si=PT5FVm3uTGykGG9eqM07wg**

## *Late to the Party (deuawd)*



Dwy ran o’r band a oedd â phum aelod yn wreiddiol, bydd ‘Late to the Party’, Sarah (llais) a George (allweddellau) yn perfformio caneuon yr enaid i ddechrau eich dydd Sul ar nodyn uchel! Mae Sarah hefyd yn perfformio fel llais cefndir gyda Big Mac’s Wholly Soul Band, a bu’n prif leisydd gyda Mike Harries Root Doctors. Mae George hefyd yn hen law ar berfformio gyda grwpiau gan gynnwys Nearly Steely a Monkjack Funk. Byddwch chi’n mwynhau cyfuniad o ganeuon gwreiddiol a chaneuon melodaidd, llawn enaid gan artistiaid eraill, megis Stevie Wonder, Al Green ac Amy Winehouse, ymysg eraill!

**Dilynwch nhw ar Facebook: https://www.facebook.com/profile.php?id=61573532174106**

## *Two Trick Pony*



Bydd yr efeilliaid Joel a Sam Bird o Gaerleon, Casnewydd, yn eich diddanu chi i ddechrau’r diwrnod! Gallwch chi ddisgwyl cyfuniad o’u caneuon eu hunain a detholiad o ganeuon pop a roc o’r 1960au hyd heddiw. Maen nhw’n chwarae caneuon artistiaid fel The Beatles, Bruce Springsteen, Queen, a The Killers, i enwi ond rhai. Mae Two Twin Pony yn perfformio mewn nifer o leoliadau ar gylchdaith gerddoriaeth de Cymru, ac maen nhw’n edrych ymlaen at berfformio yn yr ŵyl eto eleni!

**Dolen i dudalen Facebook: https://www.facebook.com/twotrickpony1975**
**Dolen i’r gerddoriaeth: www.facebook.com/watch/?v=872050216560020**

## *Deuawd Two Hats*



*Roc a rôl, indie, pop, gwerin a chanu'r enaid – detholiad ar gyfer unrhyw leoliad!*

Mae Richard Dinning yn ôl unwaith eto eleni, gyda ffrind wrth ei ochr! A gallwch chi ddisgwyl yr un amrywiaeth eang o ganeuon gyda chanu a gitâr acwstig; cyfuniad o ganeuon pobl eraill a rhai gwreiddiol sy'n sôn am fywyd Richard. Y cyfan wedi'i wneud gyda digonedd o hiwmor a phedal harmoni!

**Dilynwch nhw ar Facebook: https://www.facebook.com/profile.php?id=100076234178589**
**Dolen i'r gerddoriaeth:** https://www.facebook.com/profile.php?id=100076234178589

## *Triawd Rebecca Richards*



Fe wnaeth Rebecca Richards, y pianydd clasurol a chanwr-cyfansoddwr o Bont-y-pŵl, ddechrau ysgrifennu caneuon yn ystod blynyddoedd y pandemig ar ôl ymuno â'r fforwm ysgrifennu caneuon ar-lein "Talent is Timeless". Mae Rebecca eisoes yn creu enw i'w hun gyda'i dilyniannau cordiau hyfryd, melodïau a llais hardd, a chaiff ei chymharu'n aml â chantoresau fel Carole King, Katie Melua a Karen Carpenter. Mae ei chaneuon yn codi'r galon ac yn grymuso, ond gyda thinc chwerwfelys. Rhyddhawyd ei sengl gyntaf "Unluckiest of Hearts," ym mis Hydref 2022, a gafodd ei ddisgrifio'n "*stunning*" gyda "*beautifully aching vocals*". Cafodd y gân ei chwarae ar y radio yn fyd-eang.

Ei phrif ddylanwadau yw The Eagles a Fleetwood Mac. Mae ei cherddoriaeth wedi'i dylanwadu gan *blues*, canu gwlad a roc. Mae Rebecca wedi dysgu chwarae'r mandolin a'r gitâr denor yn ddiweddar, ac mae'n dweud bod hynny'n helpu creu amrywiaeth eang o ganeuon. Mae hi wedi cyfansoddi caneuon di-ri ac wedi ennill sawl cystadleuaeth gyfansoddi fisol wedi'u pleidleisio gan ei chymheiriaid, ynghyd â chyrraedd rhestr hir cystadlaethau cyfansoddi rhyngwladol ddwywaith. Eleni, bydd dau gerddor arall yn ymuno â Rebecca er mwyn ychwanegu at ei chaneuon anhygoel!

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/Becmusician**
**Dolen i'r gerddoriaeth:**
https://open.spotify.com/artist/53JnoVogpi4pu5n7Zb4zg3?si=puN8Ae_iSv-Zqbi9M4ISQw

## *Juno Acoustic*



Juno Acoustic yw Maddie a Dan (RecRock/The Pandas). Daw’r enw o’r ffordd mae pobl wastad yn gofyn, "d'you knooooow anything by this artist?" Maen nhw’n chwarae detholiad eang o ganeuon o’r 1960au hyd heddiw. Ar ôl chwarae mewn nifer o fandiau gan gynnwys The Pandas, Slipped Disco, The Bandaoke Show, a Maditronique, mae gan Dan a Maddie brofiad o berfformio ledled y wlad mewn gwyliau a phartïon ers 15 o flynyddoedd. Deuawd pwerus a fydd yn eich cael chi i ddawnsio o’r eiliad gyntaf un.

**Dolen i Facebook:** https://www.facebook.com/junoacousticduo
**Dolen i’r gerddoriaeth:** https://getittogethermusic.co.uk/

## *Ragsy (solo)*




Mae Ragsy yn ganwr a chyfansoddwr caneuon angerddol o dde Cymru, sy’n adnabyddus am ei arddull acwstig twymgalon gyda sain â thinc o roc a gwerin amgen. Mae ganddo gitâr ac mae’n barod i deithio!

Mae eleni’n nodi 13 o flynyddoedd ers i Ragsy ymddangos ar y rhaglen deledu *The Voice UK* a dechrau ar ei yrfa gerddorol. Mae ei lwyddiannau’n cynnwys perfformio mewn gwyliau mawr gan gynnwys Glastonbury, a chefnogi artistiaid fel James Dean Bradfield, Hue & Cry, Steve Balsame a Max Boyce.

Dwy flynedd yn ôl, cafodd Ragsy ddiagnosis o glefyd y galon etifeddol wedi iddo brofi poenau yn ei frest a’i fraich, diffyg anadl a blinder. Cafodd llawdriniaeth ddargyfeiriol ar y galon ym mis Mawrth 2025 yn Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd, ac mae’n canmol y staff yno fel archarwyr hudolus, gan ddiolch iddyn nhw am eu gofal a’u tosturi. Edrychwn ymlaen at ei weld unwaith eto, yn barod i fynd amdani!

**Dolen i Facebook: www.facebook.com/Ragsy**
**Dolen i’r gerddoriaeth:** www.facebook.com/watch/live/ref=watch_permalink&v=650118015622835

## *The Orphic Blue*



Fin Humphries a Michaela Warne yw The Orphic Blue, sef deuawd o Gymru sy'n canu caneuon gwerin a chanu gwlad acwstig. Daeth y ddau at ei gilydd fel myfyrwyr prifysgol â chariad at gerddoriaeth a phenderfynu cyfuno eu talentau. Yn fuan iawn, sylweddolon nhw bod llais grymus Michaela a chyfuniad Fin o hyfedredd strymio ac arddull bysedd yn cyd-asio'n berffaith. Mae eu cerddoriaeth yn gyfuniad nodweddiadol o gerddoriaeth werin, indie a phop.

Mae'r Orphic Blue yn arllwys eu cyd-brofiadau a chyd-emosiynau i'w caneuon, ac maen nhw'n angerddol dros ddefnyddio cerddoriaeth i greu catharsis i'w gwrandawyr, eu gwella a'u cysuro nhw. Maen nhw'n creu presenoldeb ar-lein drwy rannu caneuon pobl eraill a chaneuon gwreiddiol ar Spotify, YouTube, TikTok, Facebook ac Instagram.


**Dilynwch nhw ar Instagram: https://www.instagram.com/theorphicblue/**
**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/TheOrphicBlue**
**Dolen i'r gerddoriaeth: https://open.spotify.com/artist/7mEtUnOwTW0ZdpOLdNmG3n**

## *Cadence Acoustic Duo*



Mae CADENCE yn ddeuawd gwrywaidd/benywaidd sy'n perfformio caneuon poblogaidd o'r 1960au hyd heddiw, ar draws sawl genre, o ABBA i Led Zeppelin, ar ddwy gitâr a gyda digonedd o harmonïau. Maen nhw'n berfformwyr profiadol sy'n rhyngweithio'n wych ar y llwyfan ac yn ymgysylltu'n dda â chynulleidfaoedd, gan wneud eu gigiau'n rhyngweithiol ac yn hwyliog.

**Dolen i Facebook:**
https://www.facebook.com/CadenceAcousticCoversDuo
**Dolen i'r gerddoriaeth:**
**https://www.facebook.com/CadenceAcousticCoversDuo/videos**





## *Moonstorm (deuawd)*

Mae deuawd Moonstorm yn cynnwys Amanda Seed yn canu/chwarae gitâr a Viv Lock ar y brif gitâr. Profiad cerddoriaeth roc byw sy'n chwarae caneuon gan artistiaid eraill o'r 1960au i heddiw, gan gynnwys Tom Petty, Heart, AC/DC, Dua Lipa, Fleetwood Mac, Queen, Neil Young a mwy. Byddan nhw'n chwarae set acwstig sy'n cynnwys ochr ysgafnach cerddoriaeth roc.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/profile.php?id=100069346655412&sk=about**
**Dolen i'r gerddoriaeth: YouTube/Moonstorm band**

## *Acoustic Notation*



Y gŵr a gwraig David a Leanne yw deuawd Acoustic Notation. Daw'r ddau â chyfuniad syfrdanol o leisiau, gitâr a ffidl at ei gilydd, gan ddefnyddio trefniannau unigryw o ganeuon o genres amrywiol. Gyda blynyddoedd o brofiad cerddorol rhyngddyn nhw, yn perfformio'n genedlaethol, yn rhyngwladol ac yn y West End, gall eu harmonïau lleisiol swynol hudo ystafell, wrth i'w lleisiau nodweddiadol greu fersiynau unigryw o'ch hoff ganeuon o'r degawdau diwethaf.

**Dolen i Facebook:** https://www.facebook.com/acousticnotation
**Dolen i'r gerddoriaeth: https://www.acousticnotation.com/**

## *The Louis & Ella Music Show (Deuawd)*



Mae **The Louis & Ella Music Show** yn ddeuawd bywiog sy'n talu teyrnged i'r cantorion jazz chwedlonol **Louis Armstrong ac Ella Fitzgerald,** dan arweiniad Sarah Meek a Dave. Mae'r sioe yn cynnwys deuawdau digyfnewid ac unawdau poblogaidd o Lyfr Caneuon Mawr America, gyda threfniannau wedi'u hysbrydoli gan Bedwarawd Oscar Peterson gyda chyffyrddiadau creadigol y deuawd ei hun. Gyda chyfeiliant gan amrywiaeth newidiol o gerddorion jazz o fri, mae eu perfformiadau'n adnabyddus am eu brwdfrydedd, hiwmor a rhagoriaeth gerddorol – yn aml nid oes tocyn ar ôl pan fydd y deuawd yn chwarae mewn lleoliadau ledled y DU.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/LouisandEllamusicshow**
**Dolen i'r gerddoriaeth: www.louisandellamusicshow.com**

## *Post Modern Shoebox Duo*



‘Hen ganeuon pop gydag ychydig o swing!’ Dychmygwch Joe Pass yn cwrdd â Bon Jovi, George Benson yn cwrdd â Guns N’ Roses, a Wes Montgomery yn cwrdd â Meghan Trainor. Wedi iddyn nhw raddio o’r Royal Birmingham Conservatoire, mae Susie Webb a Craig Webb wedi perfformio ledled Prydain Fawr, yn chwarae cynifer â 250 o gyngherddau bob blwyddyn mewn gwyliau cerddorol fel Gŵyl Jazz Aberhonddu a lleoliadau fel The Royal Pump Rooms. Maen nhw hefyd wedi ymddangos ar raglen deledu y BBC (Brecon Jazz).

*‘One wishes some of the American bands had their groove’* – Birmingham Post. *‘Some of my favourite musicians’* – Andy Roberts, BBC.

**Dolen i Facebook:** https://www.facebook.com/chatnchoons
**Dolen i Instagram:** https://www.instagram.com/bluesysusie/

## *Omega Two (deuawd)*




Mae Omega Two yn cynnwys Jane Wiliams (Van Morrison, Wild Willy Barrett) sy’n canu a chwarae’r iwcalili/piano, a Pete Mathison (Ray Davies yn y 1990au) ar y gitâr. Mae Omega Two yn chwarae cyfuniad o jazz esmwyth, caneuon sy’n hawdd gwrando arnyn nhw a chaneuon i ganu gyda nhw i’ch rhoi chi mewn ysbryd gŵyl! Maen nhw’n chwarae mewn sawl lleoliad lleol - The Dead Canary, The Book Club, Rummer Tavern a Cafe Jazz ac mewn gwyliau hirsefydlog fel Jazz Aberhonddu ac Aber Jazz yn Abergwaun.

**Dilynwch nhw ar Facebook:**
**https://www.facebook.com/omegatwoduo**
**Dolen i’r gerddoriaeth:**
**https://www.facebook.com/omegatwoduo/videos**

## *Ysgol Celfyddydau Perfformio Kinetic (perfformiad cymunedol)*

Mae Kinetic yn ysgol theatr, cwmni theatr cerdd ac academi ieuenctid sy’n gweithio ledled Caerdydd a’r cyffiniau.



Nod Kinetic yw rhoi'r sgiliau a phrofiad sydd eu hangen ar berfformwyr i fynd i'r diwydiant celfyddydau perfformio, gyda'r ethos o hyfforddi wrth berfformio. Trwy gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd perfformio i berfformwyr, maen nhw'n gallu rhoi amrywiaeth eang o sgiliau ar waith gan feithrin eu hyder, ymwybyddiaeth lwyfan a gallu.

Ar draws y cwmni bob blwyddyn, mae Kinetic yn llwyfannu amrywiaeth o gynyrchiadau a phrosiectau yn ei leoliadau perfformio rheolaidd sef Theatr Richard Burton yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a'r Atrium (Prifysgol De Cymru). Yn ogystal â llwyfannu ei sioeau cerdd llawn ei hun, mae'r ysgol yn perfformio mewn cyngherddau, digwyddiadau elusennol a gwyliau, ac yn cydweithio â chwmnïau a sefydliadau eraill hefyd.

**I gael mwy o wybodaeth: https://www.kinetictheatrearts.com/**



## *The Blues Sisters*

Band deinamig o dde Cymru yw The Blues Sisters sy'n adnabyddus am eu cyfuniad hudolus o gerddoriaeth *swing*, *rhythm & blues*, a roc a rôl. Cafodd y grŵp ei sefydlu yn wreiddiol ar ddechrau'r 2000au, a daeth yn boblogaidd trwy berfformio mewn gwyliau a lleoliadau ledled y rhanbarth. Wedi iddyn nhw gymryd saib i ganolbwyntio ar eu teuluoedd, daeth y rhan fwyaf o'r aelodau gwreiddiol yn ôl at ei gilydd yn 2017, ar ôl galw mawr gan y cyhoedd iddyn nhw ddychwelyd.

Mae The Blues Sisters yn cael eu canmol am eu perfformiadau llawn egni, harmonïau lleisiol cyfoethog a repertoire sy'n cyfuno caneuon gan bobl eraill â chaneuon gwreiddiol. Mewn lleoliadau lleol neu wyliau mawr fel Gŵyl Caerleon, mae'r grŵp yn parhau i swyno cynulleidfaoedd gyda'u sain ddigyfnewid a'u presenoldeb llwyfan llawn hwyl.

**Dilynwch ar Facebook: https://www.facebook.com/groups/650683700309370**

## *Juicy and the Jokers*



Mae Juicy & the Jokers yn fand *blues* a chanu enaid bywiog o de Cymru. Y prif leisydd pwerus yw Lucy Hames, sy'n adnabyddus am ei llais soniarus, emosiynol a'i phresenoldeb llwyfan awdurdodol. Mae Lucy yn arwain y band trwy gyfuniad deinamig o gerddoriaeth y felan glasurol, canu enaid, ffync a roc a rôl.

Mae The Jokers, sy'n gerddorion profiadol o sin cerddoriaeth Cymru, yn dod â grŵfs tynn, unawdau unigryw ac egni heintus i bob perfformiad. Gyda'i gilydd, maen nhw wedi denu cefnogwyr ffyddlon trwy ymddangos mewn gwyliau lleol, lleoliadau cerddoriaeth byw a digwyddiadau cymunedol, yn chwarae setiau sy'n cydblethu caneuon pobl eraill â dawn wreiddiol.

Boed yn perfformio balâd nwydus gan Etta James neu anthem *blues-roc* llawn egni, mae Juicy & the Jokers yn llwyddo i gael y gynulleidfa ar ei thraed ac yn canu gyda nhw bob tro.

**Dilynwch nhw ar Facebook: https://www.facebook.com/profile.php?id=61552590055598**

## *No One Knows*



Mae No One Knows yn fand o bedwar o Gwmbrân â mwy na 15 o flynyddoedd o brofiad yn chwarae caneuon o'r 1960au hyd heddiw. Yn gweithio'n aml mewn lleoliadau lleol, neu fel yr adloniant mewn priodasau neu ddigwyddiadau corfforaethol, mae'r band wedi rhannu'r llwyfan gyda You Me At Six ac wedi perfformio mewn lleoliadau a sioeau amrywiol, gan gynnwys Cynnau Goleuadau Nadolig Canolfan Cwmbrân, Cwmbran CrowFest, Gŵyl Caws Caerffili, Gŵyl Great British Bake Off a llu o barciau gwyliau ledled y wlad!

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/nooneknowsofcwmbran**
**Dolen i'r gerddoriaeth:**

**https://www.youtube.com/channel/UC0osWQXmqbYSLPBO7rr7IYw**

## *Albino Frogs*

Maen nhw'n cael eu hadnabod fel "The Frogs" i'r nifer gynyddol o gefnogwyr sy'n mwynhau eu cerddoriaeth hapus a gwreiddiol sy'n codi'r galon. Mae'r grŵp pedwar-aelod hwn o'r Cymoedd yn apelio i bobl o bob oed, wrth iddyn nhw chwarae digonedd o grŵfs roc Lladin a ffync, sy'n creu cynnwrf yn eich traed a'ch corff. Ac ar ben hynny, maen nhw'n chwarae ychydig o jazz a chanu gwlad hefyd. Maen nhw'n gyfansoddwyr o fri gyda'u caneuon yn llawn alawon i'w hymian yn syth a bachiadau cofiadwy. Byddwch chi'n canu gyda nhw erbyn yr ail gytgan, yn bendant! Daryl Cook sy'n chwarae'r drymiau a'r gitâr fas yn solet ac yn llawn ffync; mae Will Palmer yn sail i'r arddull slap a choglais o chwarae'r gitâr, ac mae llais cryf Ian Day a sacsoffon meistrolgar Ric Lawton yn coroni'r cyfan. Gyda digonedd o harmonïau tri-llais, mae The Frogs yn creu sain dynn llawn sy'n ysbrydoli. Mae'n debyg i gyfuniad o Steely Dan, Hue and Cry a Little Feat, i'r rhai sy'n hoffi cymariaethau, ond i'r band hwn,mae bod yn wreiddiol ac yn hynod yn greiddiol i'w hunaniaeth.




Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'r band yn boblogaidd iawn mewn gwyliau fel Jazz Aberhonddu, Jazz Rhaglan, Aber Jazz, Jazz Rhyngwladol Abertawe, Jazz Llanelli, Gŵyl Gerddoriaeth Llandeilo, Reading Music Fest a'r ŵyl gerddoriaeth yn y Gelli Gandryll, i enwi ond rhai. Maen nhw'n parhau i chwarae gigs bach ledled y DU sy'n talu'r rhent, yn diddanu'r gynulleidfa bob tro gyda'u gallu a'u synnwyr digrifwch. Mae'r set yn llawn cellwair a sbort y mae'r gynulleidfa yn ymateb iddyn nhw. Mae'r grŵp yn gweithio ar ei drydydd albwm ar hyn o bryd, a mynegwyd diddordeb ynddo gan bobl mor bell i ffwrdd â Austin, Texas. Cafodd cerddoriaeth The Frogs ei chyflwyno yng ngŵyl gerddoriaeth glodfawr MIDEM Cannes a chafwyd ymateb cadarnhaol iddi gan bobl mor bell i ffwrdd â de America.

**Dolen i Facebook: www.facebook.com/albinofrogs**
**Dolen i'r gerddoriaeth:** https://soundcloud.com/albino-frogs

## *PRIF BERFFORMIAD NOS SADWRN: The Switchtones*



Band pump-aelod llawn egni o de Cymru sy'n chwarae caneuon pobl eraill yw The Switchtones. Maen nhw'n adnabyddus am eu perfformiadau sy'n plesio'r gynulleidfa mewn priodasau, gwyliau, a digwyddiadau preifat. Mae'r set yn cynnwys ffync,

cerddoriaeth enaid, pop a roc, ac maen nhw'n creu awyrgylch parti gyda chaneuon gan Stevie Wonder, KC and the Sunshine Band, Jessie J, The Killers a mwy.

Yn hoff fand i lawer oherwydd eu gallu cerddorol a'u presenoldeb llwyfan heintus, mae The Switchtones wedi tyfu'n ffefryn mewn gwyliau. Maen nhw wedi perfformio'n aml mewn digwyddiadau fel parti haf elusennol Bragdy Tiny Rebel yng Nghasnewydd, a digwyddiad *Rock on the Rooftop Gwesty Celtic Manor.*

Mae eu gallu i wneud i'r gynulleidfa ddawnsio ac ymuno yn y canu yn eu gwneud yn ddewis amlwg ar gyfer unrhyw ddathliad.

**Dilynwch ar Facebook: https://www.facebook.com/theswitchtones**

## *Sound of Hope (perfformiad cymunedol)*

Cymundod angerddol o gerddorion a chantorion o eglwysi ledled Caerffili yw Sound of Hope. Mae'r aelodau wedi'u huno gan genhadaeth gyffredin i ddod â cherddoriaeth addoli Gristnogol gyfoes i galon y gymuned. Cafodd y grŵp ei sefydlu yn wreiddiol ar gyfer dathliadau Jiwbilî'r Frenhines ym mis Mehefin 2022, cyn adeiladu momentwm ac ailymgynnull ar gyfer Gŵyl y Caws Bach, Caerffili ym mis Medi 2022.

Agorodd Sound of Hope yr ŵyl ar fore Sul gyda hanner awr o ganu pwerus. Cafodd torf fawr frwdfrydig ei denu gan eu perfformiad, gyda llawer o bobl yn ymuno â'r addoli a'r dathlu. Roedd presenoldeb y grŵp yn foment nodweddiadol i eglwysi lleol – a ddaeth â ffydd, cerddoriaeth a chymuned ynghyd mewn lleoliad cyhoeddus llawn llawenydd.

Dywedodd Pastor Steve Harris, un o drefnwyr y digwyddiad, ei fod yn gyfle gwych i'r eglwys fod allan ar y strydoedd, yn rhannu newyddion da Iesu a chyfleu neges o obaith i'r holl wrandawyr.

**Dolen i Facebook:**
**https://www.facebook.com/connectlifechurch/about_details?locale=en_GB**

## *St Louis Express*



Band naw aelod sy'n chwarae cerddoriaeth *swing* a *Jump Jive* llawn egni, diddanwch a hwyl. Maen nhw'n chwarae synau o oes aur cerddoriaeth, o'r 1920au i'r 1960au cynnar.

Datblygodd y band eu sain i ddenu pobl o bob oedran, o 1 i 92 oed, gan chwarae mewn lleoliadau cerddoriaeth fyw gwahanol, priodasau, gwestai, bwytai, gwyliau, digwyddiadau corfforaethol a digwyddiadau arbennig, a chael beirniadaeth wych.

Mae'r band yn chwarae caneuon gan gantorion enwog fel Frank Sinatra, Ray Charles, Louis Prima, Dean Martin, a Louis Jordan, a Harry Belafonte yn chwarae Jazz, (caneuon *Swing* safonol y bydd y rhan fwyaf o bobl yn eu hadnabod) ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd gyda cherddoriaeth heintus sy'n codi'r galon.

Gyda phob offeryn yn chwarae'n fyw, mae'r band yn cynnwys sacsoffon, clarinét, ffliwt, bas dwbl, drymiau, gitâr, prif lais a llais cefndir, a harmonica. Maen nhw'n gerddorion proffesiynol o'r safon uchaf, ac mae rhai ohonyn nhw wedi chwarae yn yr Albert Hall ac yn chwarae mewn gwyliau cerddorol yn rheolaidd, gan gynnwys tymhorau Proms.

**Dilynwch nhw ar Facebook: https://www.facebook.com/profile.php?id=100057394603438**
**I glywed y gerddoriaeth: YouTube/St Louis Express**

## *Monkjack Funk*



Band ffync o Gaerdydd yw Monkjack, sy'n adnabyddus am eu perfformiadau crai llawn egni a'u grŵfs dwfn. Yn disgrifio eu hunain fel band ffync cyflawn sy'n dod â'r hwyl a'r ffync gyda nhw, mae Monkjack yn perfformio cyfuniad pwerus o ganeuon ffync clasurol, cerddoriaeth enaid a *rhythm & blues*, a fydd yn denu'r gynulleidfa i ddawnsio, yn ddi-os.

Tyfodd y band yn ffefryn y sin cerddoriaeth fyw lleol, gyda pherfformiadau mewn lleoliadau fel North Star Caerdydd, lle mae eu hegni heintus a'u gallu cerddorol wedi denu cefnogwyr ffyddlon. Boed yn chwarae caneuon gwreiddiol neu ganeuon pobl eraill ar arddull ffync, daw Monkjack ag awyrgylch parti i bob llwyfan y byddan nhw'n perfformio arno.

Gydag enw sy'n cyfeirio at wylltineb a grŵf, hanfod Monkjack yw egni byw, rhythm dwfn a chysylltiad cerddorol.

**Dilynwch nhw ar Facebook: https://www.facebook.com/monkjackfunkband**

## *NOOKEE*



Band beiddgar o de Cymru sy'n cyfuno genres ffync, canu enaid a seicedelia yw NOOKEE, gyda'r efeilliaid unwy Gemma a Violet Hunt-Humphries yn y blaen. Gyda'u gwreiddiau yng Nghymru, Seland Newydd a'r Aifft, a chefndir yn llawn cerddoriaeth a chelf, mae'r efeilliaid yn arwain ensemble deinamig sy'n cynnwys Ruben Kingman (gitâr), Matthew Lee (gitâr), Stefan Dale (bas) a Bryn Morris (drymiau).

Mae sain NOOKEE yn gyfuniad bywiog o leisiau enaid o'r 1970au, rhythmau samba, roc seicedelig a dawn theatrig. Mae eu sioeau byw yn brofiadau ymdrochol sy'n cyfuno coreograffeg, gwisgoedd a dweud stori yn weledol – ac maen nhw'n cael eu cymharu ag artistiaid fel Frank Zappa ac Earth, Wind & Fire.

Mae'r grŵp wedi perfformio mewn gwyliau mawr fel y Dyn Gwyrdd, Kendal Calling a Sŵn, a recordion nhw eu sengl gyntaf *"You ve Got Your Story (An'  I Got Mine)"* yn Stiwdios Rockfield.

Gydag ysbryd cydweithredol ac ymrwymiad i ryddid creadigol, mae NOOKEE yn parhau i wthio ffiniau cerddorol wrth barhau i fod wedi'u gwreiddio mewn cymuned a mynegiant.

**Dilynwch nhw ar Facebook:** https://www.facebook.com/NookeeBand. **Dolen i'r gerddoriaeth:** https://open.spotify.com/artist/5DqRdWa2NrlSDsYNVJQ8x3?si=GloBswo8SWWLw3XnDcrEXQ

## *PRIF ARTISTIAID NOS SUL: Big Mac's Wholly Soul Band*

NÔL OHERWYDD GALW MAWR! Mae 12 o aelodau Big Mac's Wholly Soul Band wedi chwarae gyda'i gilydd fel band canu enaid clasurol ers 1990. Maen nhw wedi chwarae ledled y DU, gan gynnwys yn The Marquee Club, The Café Royal, The Rock Garden, Boomtown Festival, Upton Blues, The Dorchester ac ati, a hefyd yn Fienna, Cairo, Tenerife, yr Almaen a Dulyn. Maen nhw wedi cefnogi neu rannu llwyfan gydag artistiaid fel Billy Ocean, Edwin Starr, Jools Holland, Van Morrison, Earth Wind & Fire, Jimmy James, The Real Thing, Odyssey, Craig Charles, Ruby Turner, Gwen Dickey (Rose Royce), The Commitments, Sheila Ferguson (The Three Degrees), Pato Banton, The Pasadenas, Jaki Graham a llawer mwy.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/groups/21693080282**

**Dolen i'r gerddoriaeth:** https://www.youtube.com/@sarahcampbell2000

## *Cyflwynwyr y Penwythnos*

### *Ali Shai Boksh*




Mae Ali 'Shai' Boksh yn weithiwr ieuenctid a chymunedol, cynhyrchydd creadigol a chyflwynydd digwyddiadau uchel ei barch o Gasnewydd. Mae'n gyd-sylfaenydd a chyfarwyddwr Urban Circle Casnewydd, sefydliad llawr gwlad sydd wedi ymrwymo i rymuso pobl ifanc trwy'r celfyddydau, y cyfryngau ac ymgysylltu diwylliannol.

Gyda mwy na 15 o flynyddoedd o brofiad yn y gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a statudol, mae Shai wedi dod yn gymeriad amlwg yn y sin greadigol a datblygu cymunedol yng Nghasnewydd. Chwaraeodd rhan allweddol yn y gwaith o lansio Newport City Radio (Urban Circle Radio yn wreiddiol) yn 2007, sydd wedi tyfu'n blatfform hollbwysig i leisiau lleol, gan gyrraedd mwy na 100,000 o wrandawyr.

Yn adnabyddus am ei garisma, ei gymeriad cynnes a'i gysylltiad dwfn â'r gymuned, daw Shai ag egni a dilysrwydd i bob digwyddiad y mae'n ei gyflwyno – boed yn arddangosfa dalent ieuenctid, gŵyl ddiwylliannol neu'n ddathliad cymunedol.

**Dolen i Facebook:** https://www.facebook.com/ShaiUK

### *Francesca Dimech*



Mae Francesca Dimech yn actor, cerddor, artist llais a thiwtor dwyieithog o Gaerdydd, o dras Eidalaidd-Ynys Malta. Mae Francesca yn rym creadigol ar draws nifer o ddisgyblaethau, ac mae hi wedi gweithio'n eang ym meysydd theatr, cerddoriaeth, cyfieithu ac addysg. Mae'n adnabyddus am ei phersonoliaeth fywiog a'i phresenoldeb llwyfan deniadol.

Dechreuodd berfformio cerddoriaeth yn bedair oed, gan ennill ei heisteddfod ysgol gyntaf yn chwarae'r glockenspiel. Ers hynny, mae Francesca wedi datblygu gyrfa gyfoethog sy'n cynnwys perfformio byw, gwaith trosleisio, isdeitlo a chelfyddydau cymunedol. Mae Francesca hefyd yn eiriolwr angerddol dros gelfyddydau cynhwysol a hygyrch, gan weithio'n aml â sefydliadau fel Cerdd Gymunedol Cymru.

Boed yn cyflwyno gŵyl, yn arwain gweithdy neu'n perfformio ar lwyfan, daw Francesca â brwdfrydedd, hiwmor a natur broffesiynol i bob digwyddiad y mae hi'n rhan ohono.

**Dilynwch hi ar Facebook: https://www.facebook.com/fdimech**

## *Richard Robling*



Mae Richard Robling yn gerddor, yn gyhoeddwr cymunedol ac yn drysor lleol.

Mae Richard Robling yn ganwr, gitarydd a chyfansoddwr caneuon o Gaerleon. Yn adnabyddus am ei lais cynnes a'i arddull acwstig ar y gitâr, mae Richard yn perfformio cerddoriaeth o bob math gan gynnwys baladau clasurol, sgiffl, gwerin a rhai o'i hoff ganeuon cyfoes, ynghyd â rhai o'i ganeuon gwreiddiol ei hun. Mae'n perfformio'n rheolaidd mewn lleoliadau lleol fel The Bell Inn yn ystod Gŵyl Caerleon.

Y tu hwnt i'r llwyfan, cafodd Richard effaith barhaus ar y gymuned trwy ei waith gyda Music in Hospitals & Care lle mae wedi perfformio ers 2015. Mae ei berfformiadau twymgalon a hiraethus wedi dwyn llawenydd i wardiau ysbytai a chartrefi gofal ledled Cymru, yn enwedig ymysg pobl sy'n byw gyda dementia. Maen nhw'n adnabyddus am ennyn emosiwn a momentau o gysylltiad sy'n gallu bod yn wyrthiol yn aml.

Roedd Richard hefyd yn cyfrannu at fywyd lleol fel sylfaenydd a chyhoeddwr hirdymor *Caerleon Community Times*, cylchgrawn misol y bu'n ei rhedeg o 2008 hyd nes iddo ymddeol yn 2024.

**Dolen i Facebook: https://www.facebook.com/richard.robling.9**
**Dolen i'r gerddoriaeth:** www.youtube.com/watch?v=oYvKrWKXmOs